# 2010 Rhif (Cy. 40 )

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Awst 2010* |
| *Yn dod i rym* | *5 Awst 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 12(3), 203(9) a (10) a 204 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau a ganlyn—

## RHAN 1

### Cyflwyniad

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) 2010.

(2) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 5 Awst 2010.

(3) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys i swyddogaethau y cyfarwyddir Byrddau Iechyd Lleol i'w harfer o dan gyfarwyddyd 3 sy'n ymwneud â'r canlynol—

(a) ceisiadau am ad-dalu costau gwasanaethau a ddarparwyd mewn Gwladwriaeth AEE arall yn unol ag dran 6A (ad-dalu cost gwasanaethau a ddarparwyd mewn Gwladwriaeth EEA arall) o Ddeddf y GIG (Cymru)(**2**); a

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) Mewnosodwyd adran 6A gan O.S. 2010/915.

(b) ceisiadau am awdurdodiad ymlaen llaw bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan ddarparydd awdurdodedig mewn Gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig o dan adran 6B (awdurdodiad ymlaen llaw at ddibenion adran 6A) o Ddeddf y GIG (Cymru)(**1**).

**Dehongli**

**2.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr “awdurdod cyfrifol” (“*responsible authority*”) mewn perthynas â chlaf yw'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am y claf hwnnw yn unol â rheoliad 2(2) o Reoliadau’r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009(**2**);

ystyr “Deddf y GIG (Cymru)” (“*the NHS (Wales) Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru*)* 2006; ac

ystyr “diwrnod gwaith” (“*working day*”) yw unrhyw ddirwnod gwaith ac eithrio—

(a) dydd Sadwrn neu ddydd Sul,

(b) dydd Nadolig neu ddydd Gwener y Groglith,

(c) diwrnod sydd yn ŵyl y banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**3**).

**Arfer swyddogaethau o dan adrannau 6A a 6B o Ddeddf y GIG (Cymru)**

**3.**—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo pob Bwrdd Iechyd Lleol i arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adran 6A (ad-dalu cost gwasanaethau a ddarparwyd mewn Gwladwriaeth EEA arall) o Ddeddf y GIG (Cymru) yn unol â'r cyfarwyddiadau yn Rhan 2.

(2) Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo pob Bwrdd Iechyd Lleol i arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adran 6B (awdurdodiad ymlaen llaw at ddibenion adran 6A) o Ddeddf y GIG (Cymru) yn unol â'r cyfarwyddiadau yn Rhan 3.

(3) Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo pob Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu gwybodaeth a chymorth yn unol â'r cyfarwyddiadau yn Rhan 4.

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 6B gan O.S. 2010/915.
(**2**) O.S. 2009/1511 (Cy.147).
(**3**) 1971 p.80.

# RHAN 2

## Ceisiadau am ad-dalu costau

### Dyletswydd i ad-dalu

**4.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol sefydlu gweithdrefnau a'u cyhoeddi er mwyn penderfynu ceisiadau o dan adran 6A o Ddeddf y GIG (Cymru) oddi wrth gleifion y mae'n gyfrifol amdanynt neu yr oedd yn gyfrifol amdanynt ar yr adeg y gwnaed y gwariant AEE cymwys(**1**) .

(2) Rhaid i'r gweithdrefnau ar gyfer penderfynu ceisiadau o'r fath gynnwys darpariaeth ar gyfer adolygu'r penderfyniad gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

### Amser ar gyfer penderfynu cais am ad-daliad

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol benderfynu cais am ad-daliad o fewn 20 o ddiwrnodau gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y cais.

(2) Pan na fo'r cais am ad-daliad yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r Bwrdd Iechyd Lleol i benderfynu'r cais, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ceisydd o fewn 20 o ddiwrnodau gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y cais am yr wybodaeth y gofynnodd amdani er mwyn iddo benderfynu'r cais.

(3) Pan fo Bwrdd iechyd lleol yn gofyn am wybodaeth bellach i benderfynu'r cais, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol benderfynu'r cais o fewn 10 diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad cafodd yr wybodaeth y gofynnodd amdani yn unol â pharagraff (2).

### Ffurf a chynnwys y penderfyniad

**6.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ceisydd yn ysgrifenedig am ei benderfyniad ar y cais am ad-daliad.

(2) Ac eithrio pan benderfynir ad-dalu'r swm llawn a hawlir gan y ceisydd, rhaid i'r penderfyniad—

(a) nodi'r wybodaeth a ystyriwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol wrth iddo ddod i'w benderfyniad;

(b) y rhesymau dros ei benderfyniad; ac

(c) y camau y mae'n rhaid i geisydd eu cymryd os yw'r ceisydd yn anghytuno â'r penderfyniad ac yn dymuno gofyn am adolygiad o'r penderfyniad gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

---

(**1**) Diffinnir “Qualifying EEA expenditure” yn adran 6A(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

# RHAN 3

## Ceisiadau am awdurdodiad ymlaen llaw

**Dyletswydd i benderfynu ceisiadau am awdurdodiad ymlaen llaw**

**7.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol sefydlu a chyhoeddi ei weithdrefnau ar gyfer penderfynu ceisiadau am awdurdodiad ymlaen llaw o dan adran 6B o Ddeddf y GIG (Cymru) gan gleifion y mae'n awdurdod cyfrifol drostynt.

(2) Rhaid i'r gweithdrefnau o dan baragraff (1) gynnwys darpariaeth ar gyfer adolygu'r penderfyniad gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

**Amser ar gyfer penderfynu cais am awdurdodiad ymlaen llaw**

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol benderfynu cais am awdurdodiad ymlaen llaw o fewn 20 o ddiwrnodau gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y cais.

(2) Pan na fo'r cais am awdurdodiad ymlaen llaw yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r Bwrdd Iechyd Lleol i benderfynu'r cais, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ceisydd o fewn 10 niwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y cais am yr wybodaeth y gofynnodd amdani er mwyn iddo benderfynu'r cais.

(3) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn am wybodaeth bellach i benderfynu’r cais, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol benderfynu'r cais o fewn 10 niwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad cafodd yr wybodaeth y gofynnodd amdani yn unol â pharagraff (2)

**Ffurf a chynnwys y penderfyniad**

**9.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ceisydd yn ysgrifenedig am ei benderfyniad ar y cais am awdurdodiad ymlaen llaw.

(2) Ac eithrio pan benderfynir rhoi'r awdurdodiad y gwnaed cais amdano gan y ceisydd, rhaid i'r penderfyniad—

(a) nodi'r wybodaeth a ystyriwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol wrth iddo ddod i benderfyniad;

(b) y rhesymau dros ei benderfyniad; ac

(c) y camau y mae'n rhaid i geisydd eu cymryd os yw'r ceisydd yn anghytuno â'r penderfyniad ac yn dymuno gofyn am adolygiad o'r penderfyniad gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

# RHAN 4

## Darparu gwybodaeth a chymorth

### Dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am wasanaethau arbennig yn ddarostyngedig i awdurdodiad ymlaen llaw

**10.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol gyhoeddi gwybodaeth sy'n dynodi'r gwasanaethau hynny y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn trefnu eu bod ar gael i bersonau y mae ef yn awdurdod cyfrifol drostynt sydd yn wasanaethau arbennig(**1**) y mae'n ofynnol cael awdurdodiad ymlaen llaw ar eu cyfer yn unol ag adran 6B o Ddeddf y GIG (Cymru).

### Dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am weithdrefnau ar gyfer ad-daliad ac awdurdodiad ymlaen llaw

**11.** Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol gyhoeddi'r canlynol a threfnu eu bod ar gael—

(a) gwybodaeth am y gweithdrefnau sydd ar waith gan y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ad-daliad o dan adran 6A o Ddeddf y GIG (Cymru) ac am awdurdodiad ymlaen llaw o dan adran 6B o Ddeddf y GIG (Cymru);

(b) copi o'r ffurflen y mae'n rhaid gwneud y cais am ad-daliad neu'r awdurdodiad ymlaen llaw ynddi; ac

(c) yr hyn sy'n ofynnol ganddo o ran yr wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi i gefnogi cais am ad-daliad neu am awdurdodiad ymlaen llaw.

### Cyngor a chymorth

**12.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol ddarparu cyngor a chymorth i bersonau sy'n meddwl am geisio cael triniaeth feddygol neu ddeintyddol mewn Gwladwriaeth AEE arall neu sy'n dymuno hawlio ad-daliad o'r costau am wasanaethau a ddarparwyd mewn Gwladwriaeth AEE arall.

---

(**1**) Diffinnir "Special service" yn adran 6A(11) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

**13.** Mae cyngor a chymorth o'r fath i'w gyfyngu i ganllawiau ynghylch y gweithdrefnau sydd i'w dilyn (ac nid ydynt i gynnwys cyngor cyfreithiol neu feddygol).

Llofnodwyd gan Simon Dean, Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio, Tîm Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 5 Awst 2010